# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Mai 2018

Amser: 08.30 - 08.41

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Dai Lloyd AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd Rhun ap Iorwerth ei ymddiheuriadau; Roedd Dai Lloyd yn bresennol fel dirprwy.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 20 Mehefin 2018 –**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl gan Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.
- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ymgynghori ar amserlen ar gyfer Cyfnod 1 a Chyfnod 2.
- Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai angen parhau i adolygu amseru Cyfnod 3, yn sgil canlyniadau Cyfnodau 1 a 2, gan eu bod yn digwydd bob ochr i doriad y Nadolig.

# 5 Gadael yr Undeb Ewropeaidd

## 5.1 Y diweddaraf ar y camau craffu ar adael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Pwyllgor Busnes

Nododd Rheolwyr Busnes y papur, ac y byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ddigwydd ar ôl i ddarpariaethau perthnasol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ddod i rym. Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod y Llywodraeth wedi derbyn y dylai statws argymhellion pwyllgor sifftio'r Cynulliad fod yn gyson ag argymhellion pwyllgorau San Steffan.